**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

Cofnodion y cyfarfod misol yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan ar y 5ed o Fedi, 2024 am 7:00 yr hwyr.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), John Jones, Enid Egginton, Michael Jones (Garndolbenmaen), Raymond Jones, Huw Pritchard (Pentrefelin), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Gwenno Emlyn Huws, Jess Williams (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg), Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Clifford Williams (Garndolbenmaen), Iddon Edwards (Penmorfa) a Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan buddiant: | Gwilym Evans – Eitem 14<br>Megan Lloyd Williams – Eitem 14 |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion | RP yn cynnig a MJ yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion | <u>Etholiad:</u> Clerc wedi cysylltu i ofyn am ddiweddariad neu ddatrysiad parthed yr anfoneb sydd yn parhau i fod yn ddyledus gennym. Dal heb dderbyn ymateb.<br><br><u>Archwiliad:</u> Adroddwyd fod y llyfrau, ffurflen flynyddol a'r holl ddogfennaeth berthnasol wedi ei anfon at Archwilio Cymru. Heb glywed dim yn ôl hyd yma.<br><br><u>Coed Tan y Bryn:</u> Cysylltwyd yn ôl â chynrychiolydd Coed Cadw i ofyn a oedd yn bosib torri mwy o'r coed er mwyn gwella gweledEdd. Does dim ymateb wedi'i dderbyn hyd yma.<br><br><u>Pont y Traeth, Prenteg:</u> Adroddwyd fod y bont wedi cael ei arwisgo a bod y sefyllfa dŵr yn well, ond dal ddim yn iawn. Nid yw'r coed wedi eu torri.<br><br>Ynglŷn ar arwydd stop, bu i ni dderbyn ymateb gan yr Adran Briffyrdd yn dweud eu bod wedi gosod arwyddion stop yno tra oedd y gwaith arwisgo yn digwydd a than oedd yr arwydd stop yn gallu cael ei beintio ar y ffordd. Nid dyma ofynnwyd iddynt, bu i ni ofyn am y rhesymeg dros yr angen am arwydd stop yn y lle gyntaf pan mae yna oleuadau yn fflachio ar gael |

| | | |
|---|---|---|
| | | yno. Mae GE wedi ymchwilio croesfannau rheilffordd eraill gyfagos, a dim ond arwydd ildiwch sydd ar ffordd ddi-ddosbarth yn Nantmor, ym Mhorthmadog, ffordd dosbarth A prysur, dim ond golau yn fflachio sydd yno ac wedyn ym Mhrenteg, ffordd dosbarth B, weddol ddistaw, mae yna arwydd stop a goleuadau yn fflachio. Mae GE wedi cysylltu yn ôl i ofyn am ymateb i'r cwestiwn.<br><br>Mynwent Bethel: Ynglŷn â'r cerrig beddi sydd wedi disgyn, penderfynwyd cynnwys darn yn y Ffynnon / Wylan i weld os daw rhywun i gyswllt am y beddi yma. Mae'r cerrig wedi eu gosod yn fflat ar y beddi am y tro.<br><br>Cytundeb Veolia: Adroddodd y Clerc bod Veolia yn mynnu rhybudd o 90 diwrnod i ddod â'r cytundeb i ben ac y bydd taliad o £200 i ddod allan o'r cytundeb yn fuan. Clerc i ymchwilio mwy i dermau'r cytundeb gyda Veolia a gweld os yw'r cytundeb yn adnewyddu yn awtomatig bob blwyddyn.<br><br>Pont Rheilffordd, Pentrefelin: Cafwyd ymateb gan yr Uned Draffig yn dweud fod yr Uned Draffig yn parhau i weithio trwy ôl-groniad sydd yn eu hwynebu ac mae'n hanfodol eu bod yn canolbwyntio ar ymholiadau hanesyddol sydd angen sylw. Dywed fod y dasg yn un hirwyntog ac yn rhoi pwysau ar eu hadnoddau prin gan fod nifer o'r pryderon yma angen iddynt fynd allan ar safleoedd ar draws y sir i adolygu ac mae hyn yn cymryd amser. Bydd yng nghylch rannu'r ohebiaeth yma gydag aelodau eraill o'r tîm i weld os oes ganddynt y cynhwysedd i ymgymryd â'r yr arolygiad ond ni all roi cadarnhad o hyn.<br><br>Hen lôn Penmorfa: Soniwyd fod y ffordd wedi ei thorri a'i fod wedi'i dorri yn dda iawn.<br><br>Ymddiswyddiad Cynghorydd: Adroddwyd fod yr hysbyseb o sedd wag i fyny ar y wefan gyda dyddiad cau dydd Llun, 9fed o Fedi.<br><br>Dŵr Garndolbenmaen a Chanolfan Ailgylchu Rhwngddwyryd: Cafwyd ymateb gan Dŵr Cymru yn dweud mai'r rheswm tros lawer o bibelli dŵr yn byrstio yn yr ardal yn ddiweddar oedd bod falf yn yr ardal ddim yn gweithio fel y dylai. Maent bellach wedi gwneud gwaith ar y falf ac mae nawr yn gweithio'n iawn. Rheswm arall oedd bod problemau wedi bod |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyda chyflenwadau trydan yn yr ardal. Mae angen trydan i redeg y pympiau dŵr sy'n cyflenwi cartrefi yn yr ardal.<br><br>Mae'r dŵr sydd ger y Ganolfan Ailgylchu o bibell ddŵr sy'n gollwng. Gan fod hon yn brif bibell sy'n cario dŵr i Ben Llŷn i gyd mae'n cymryd amser i gynllunio'r gwaith trwsio - ond maent yn gobeithio y bydd eu contractwyr arbenigol wedi gallu ei thrwsio erbyn diwedd yr haf. |
| 7 | Mynwentydd | <u>Mynwent Bethel:</u> Parthed gwaith tacluso'r llwybrau sydd angen ei wneud, awgrymwyd fod pawb yn galw heibio'r fynwent i weld beth sydd angen ei wneud ac fe gaiff ei drafod yn y cyfarfod nesaf.<br><br><u>Mynwent Prenteg:</u> Adroddodd y Cynghorydd June Jones ei bod wedi ymweld â'r fynwent yn ddiweddar a bod un ochr y ffordd yn y top yn uwch na'r llall a bod y gwair yng nghanol y ffordd yn crafu o dan y car. GE i ymweld ar fynwent ac i drafod yn y cyfarfod nesaf.<br><br><u>Mynwent Cwm Pennant:</u> Wedi cael ei dorri. |
| 8 | Llwybrau Cyhoeddus | Adroddwyd bod llwybr rhif 7 neu 8 yng Ngarndolbenmaen wedi cau gyda thyfiant. Soniwyd bod y llwybr wedi bod felly ers Gorffennaf. Bydd angen gwybod pa lwybr ydyw er mwyn gwneud ymholiadau pellach.<br><br>Soniwyd bod yna giât haearn wedi cael ei dynnu oddi ar lwybr Tŷ Mawr i fyny am Gwm Mawr. Clerc i holi. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi | <u>Garndolbenmaen</u>: Dim i'w adrodd.<br><br><u>Prenteg:</u> Yn dilyn gwaith diweddar ar ddraen Tyrpeg Uchaf gan Gyngor Gwynedd, bu i lwyth o goncrit gael ei adael sydd bellach wedi caledu yn y sỳmp ac yn achosi problemau.<br><br>Adroddwyd nad yw'r goeden sydd yn gwyro i'r ffordd ger Bwlch y Moch wedi cael sylw. Clerc i ddilyn y mater yma i fyny.<br><br>Trafodwyd materion parcio Bwlch y Moch – mae'n parhau i fod yn beryg ar gyfnodau. Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn ymateb gan y BMC parthed y llwybr ac maent wedi edrych ar y posibilrwydd o greu llwybr ond maent yn ansicr |

| | | |
|---|---|---|
| | | os allent fynd drwodd, oherwydd mae mwy na hanner ohono yn faes clogfeini, ac os ydynt am ei arwyddo fel llwybr troed, yna mae'n rhaid iddynt ei gadw i safon benodol. Dywedodd fod rhaid iddo gyfaddef bod hyn wedi bod ar y "back burner" ond y byddai'n gwirio gyda'u cynrychiolydd lleol os oes ganddo unrhyw farn/syniadau pellach am y mater.<br><br><u>Pentrefelin:</u> Adroddwyd fod cyflwr ffordd Pont Faen i Eglwys Penmorfa yn ofnadwy. Clerc i adrodd am hyn i'r Adran Briffyrdd.<br><br><u>Penmorfa:</u> Adroddwyd fod cyfer draen ger Ffynnon Beuno wedi ei falu. Clerc i adrodd am hyn.<br><br>Soniwyd fod arosfa'n bws Penmorfa angen ei lanhau. Clerc i drefnu'r gwaith.<br><br>Derbyniwyd gwybodaeth fod yna broblem gyda bysus ysgol ym Mhenmorfa gan eu bod o fewn 3 milltir i'r Ysgol Uwchradd. Adroddwyd fod rhieni yn gorfod aros i glywed gan Gyngor Gwynedd os gall eu plant gael sedd ar y bws ysgol o dan y Polisi Seddi Gwag.<br><br><u>Golan:</u> Adroddwyd fod yna lawer o ddŵr yn rhedeg drwy'r flwyddyn ar y ffordd ger Beudy Ynys Wen. Mae pobl yn bryderus am y Gaeaf pan fydd yn rhewi a hefyd mae'r dŵr yn erydu'r ffordd. Clerc i adrodd am y broblem.<br><br>Soniwyd fod y ffoes ger Talafon wedi'i agor ond nid yw wedi datrys y broblem. Clerc i adrodd.<br><br>Adroddwyd fod Lôn Ymwlch wedi cael ei dorri a bod gwaith da wedi cael ei wneud. Clerc i basio'r ganmoliaeth yma ymlaen.<br><br>Adroddwyd eto fod yna lanast wedi cael ei adael ar ôl y lori ailgylchu. Clerc i adrodd am hyn.<br><br><u>Bryncir:</u> Llawer o lwch a thywod ar hyd y ffordd ar balmentydd. Clerc i gysylltu i weld os all y ffordd / palmant gael eu glanhau. |
| 10. | Safle Bws Bryncir (i'r Gogledd) | Derbyniwyd e-bost gan etholwr yn nodi ei bryderon am ddiogelwch safle bws Bryncir sydd yn mynd i gyfeiriad Caernarfon. Soniodd yn yr e-bost bod trigolion yn gorfod camu i'r ffordd fawr er mwyn gwneud eu hunain yn weledol i'r gyrwyr bws. Clerc i gysylltu ag Unllais am gyngor ac i drefnu |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyfarfod safle gyda Merfyn Morris o'r Asiant Cefnffyrdd ac efallai cynrychiolaeth o'r Uned Drafnidiaeth Gyhoeddus. |
| 11. | Shelter Bws Garndolbenmaen | Adroddwyd bod Shelter Bws Garndolbenmaen (yr un ger yr ysgol) wedi cael ei falurio cyn gwyliau'r haf. Dywedodd y Clerc ei bod wedi adrodd y mater i'r heddlu ac wedi gwneud cais i'w drwsio drwy'r cwmni yswiriant Zurich. Mae dau ddyfynbris wedi'i dderbyn ac wedi ei basio ymlaen i Zurich – mae'r Clerc yn disgwyl i glywed ymhellach ganddynt, |
| 12. | Gohebiaeth | a. Cyngor Gwynedd: Ymgynghoriad system bleidlais drosglwyddadwy – Dyddiad Cau:15/09/2024<br>b. Cyngor Gwynedd: Shelter bws newydd Tafarn yr Afr, Glandwyfach a Phlas Gwyn, Pentrefelin. Dim gwrthwynebiad i Bentrefelin gan mai cynllun i uwchraddio ydyw. O safbwynt Glandwyfach, gofynnwyd beth yw'r dystiolaeth bod galw am loches bws yn y lleoliad yma. Mae pryderon am ddiogelwch y lleoliad gan ei fod yn ffordd gyflym, 60mya. Clerc i gysylltu gyda'r Uned Drafnidiaeth Gyhoeddus.<br>c. Cyngor Gwynedd: Erthygl 4<br>ch. Cyngor Gwynedd: Arwyddion Croeso uniaith Gymraeg |
| 13. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Unllais Cymru – Presenoldeb Aelodau – Rheol 6 mis<br>b. Unllais Cymru – Polisïau a Grymoedd<br>c. Unllais Cymru – Bwletin Newyddion<br>ch. Terry Thomas – Rheolwr Coed Hendre Ddu, Cwm Pennant |
| 14. | Cynllunio | **Rhestrau:**<br><br>Gorffennaf: 8/7, 15/7, 22/7 a 29/7<br>Awst: 5/8, 12/8, 19/8 a 26/8<br><br>**Ceisiadau Cynllunio:**<br><br>**Gadawodd GE a MLW y cyfarfod pan drafodwyd y cais cynllunio yma**.<br><br>**Rhif Cais**: NP2/16/454B<br>**Lleoliad:** Tir yng Nghefn Coch Isaf, Cwm Ystradllyn. LL51 9AZ<br>**Disgrifiad:** Amrywio Amod 3 (Cyflwyno CEMP) ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP2/16/454A dyddiedig 02/09/2020 – Dim gwrthwynebiad.<br>**Ymunodd GE a MLW yn ôl gyda'r cyfarfod.**<br><br>**Rhif Cais:** C24/0646/36LL<br>**Lleoliad:** The Old Cow Sheds, Pentrefelin, LL52 0RB |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Disgrifiad:** Newid defnydd uned wyliau'r Cow Shed i dŷ annedd/prif gartref (C3) a chadw defnydd Little Barn yn uned wyliau (C6). Dim gwrthwynebiad ar yr amod bod Amod lleol 106 yn cael ei roi a'u bod yn newid yr enwau ar yr eiddo i enwau Cymraeg. |
| 15. | Materion Ariannol | **Ceisiadau am arian:** Neb<br><br>**Monitro'r gyllideb:** Dim gorwariant<br><br>Cyflog Clerc = £311.58<br>Ffôn = £ 15.00<br>Cyfrifiadur = £20.00<br>HMRC = £79.00<br>Veolia Awst = £26.02<br>HSBC = £8.00<br>Archwilio Cymru (2022/23) = £200.00<br>Costau Clerc (Medi 23-Awst 24) = £234.14<br>Hyfforddiant Unllais = £ 40.00 |
| 16. | Gohebiaeth i'r Wasg / Wefan | Cerrig Beddi Mynwent Bethel<br>Safle Bws Garndolbenmaen<br>Ffordd Cwmystradllyn<br>Safle Bws Bryncir |